# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli*

***25 Mawrth 2008***

***Adroddiad yr Uned Forwrol***

***1 – <u>Ffioedd a Thaliadau</u>***

**1.1** Mae'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol nesaf, 2008/09, ar gyfer yr Uned Forwrol wedi eu cymeradwyo gan Fwrdd y Cyngor.

**1.2** Ynghlwm mae copi o'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â Hafan Pwllheli ac angorfeydd yr Harbwr Allanol. Bydd Aelodau'n nodi yr argymhellir bod y taliadau ar gyfer angorfeydd pontŵn yn Hafan Pwllheli yn codi 6% gyda ffioedd eraill yr Hafan yn codi 3%. Bydd Aelodau'n nodi bod Bwrdd y Cyngor wedi cymeradwyo bod taliadau angorfeydd yn yr Harbwr Allanol yn codi 2% ar gyfer trigolion parhaol Gwynedd tra bod taliadau ar gyfer y rhai sy'n byw y tu allan i Wynedd yn codi 4%.

**1.3** Rhagwelir y bydd y chwyddiant ar gyfer harbyrau Gwynedd ar gyfer 2008/09 yn 3.97%. Bydd hyn gyfystyr â chynnydd o £11,270 sydd ei angen yn y targed incwm cronnol ar gyfer harbyrau yn 2008/09. Mae'r mynegydd chwyddiant ar gyfer Hafan Pwllheli ar gyfer 2008/09 yn 2.98%, sydd gyfystyr â'r cynnydd sydd ei angen o £42,260 yn y targed incwm cronnol ar gyfer 2008/09.

**1.4** Bydd Aelodau'n ymwybodol bod y targed incwm ar gyfer Hafan Pwllheli a'r Harbwr Allanol yn uwch na'r targed. Parheir i gymryd y camau priodol er mwyn sicrhau y bydd y gwariant cyffredinol a'r gofynion incwm yn cyrraedd eu targedau yn 2008/09.

**1.5** Mae'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â lansio a chofrestru cychod pŵer a chychod dŵr personol wedi cynyddu a bydd Aelodau yn nodi bod cynnydd bychan, fel yr adroddir yn yr atodiad. Tra bod rhai ffioedd yn ymwneud â chychod pŵer a chychod dŵr personol yn aros heb eu newid, mae cynnydd bychan mewn ffioedd cofrestru trwy'r post ac mae'r ffi caniatâd lansio blynyddol hefyd wedi codi.

**1.6** Mae'r cynnydd cyffredinol yn y targed incwm ar gyfer yr Uned Forwrol ar gyfer 2008/09 yn £62,040, sy'n cynyddu'r targed incwm cyffredinol ar gyfer yr Uned Forwrol i £2,070,880.

**2 -** ***<u>Cyllidebau</u>***

**2.1** Atodir y sefyllfa ariannol ar gyfer Hafan Pwllheli a'r Harbwr Allanol ar 31 Ionawr 2008. Bydd Aelodau'n nodi bod y targed incwm ar gyfer harbwr Pwllheli ar gyfer 2007/08 yn £113,000, a bod y cyfanswm incwm a gynhyrchwyd hyd at ddiwedd Ionawr 2008 wedi cyrraedd £123,000. Ni ragwelir y gellir cynhyrchu incwm sylweddol yn ystod Chwefror a Mawrth. Felly, rhagwelir y bydd y targed incwm yn aros yn sylweddol uwch na'r targed.

**2.2** Bydd Aelodau'n sylwi bod y targed incwm ar gyfer Hafan Pwllheli ar gyfer 2007/08 yn £1,418,000, a bod y cyfanswm incwm a gynhyrchwyd hyd at ddiwedd Ionawr 2008 wedi cyrraedd £1,391,000. Rhagwelir y cyrhaeddir y targed incwm gofynnol erbyn diwedd Mawrth.

**2.3** Fel y bydd Aelodau'n nodi, mae'r gwariant hyd yma yn uwch na'r gyllideb ar nifer o benawdau yn yr Harbwr Allanol ac mae hyn yn peri peth pryder gan y disgwylir gwariant ychwanegol yn ystod mis Mawrth. Bydd angen yr incwm ychwanegol a gynhyrchir er mwyn sicrhau y bydd y gyllideb gyffredinol yn cyfarfod â'r targed gofynnol.

**2.4** Bydd 2008/09 yn flwyddyn heriol i'r Uned Forwrol, yn enwedig ar gyfer harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Aberdyfi ac Abermaw. Pwysleisir y bydd yn rhaid goresgyn gorwariant a'r diffyg yn incwm rhai harbyrau, gan gofio'r hinsawdd ariannol bresennol a'r lleihad sylweddol yn y gefnogaeth ariannol fydd yn wynebu'r Awdurdod.

## 3 ***Mordwyo/ Angorfeydd***

**3.3** Mae'r holl gymhorthion mordwyo sy'n arwain i harbwr Pwllheli wedi aros yn eu lle yn ystod rhan gyntaf y gaeaf. Tra bod y rhan fwyaf o'r cymhorthion mordwyo yn rhai sefydlog, dim ond dau sy'n dal yn eu lle, sef Bwi Fairway a'r arwydd Llaw Chwith sy'n dynodi mynedfa'r harbwr yn y sianel. Mae'r bwi dros dro Llaw Dde yn ei le yn yr ardal gyferbyn â swyddfa'r Harbwrfeistr er mwyn cyfeirio trafnidiaeth tua'r de oddi wrth y rhwystr sy'n ymestyn allan i'r sianel.

**3.4** Mae tri bwi dros dro Llaw Chwith yn eu lle ym mynedfa'r harbwr er mwyn cyfeirio trafnidiaeth i ffwrdd o'r dŵr bas. Rhagwelir y bydd y bwiau yn aros yn eu lle, o bosib tan 2012, pan fydd y rhaglen garthu ar gyfer y fynedfa yn ail ddechrau.

**3.5** Cafodd holl angorfeydd yr harbwr eu harchwilio a'u cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau y bydd cychod fydd yn yr harbwr yn sownd yn ystod y tymor hwylio sydd i ddod. Bydd adroddiad manwl ar gael gan yr Harbwrfeistr yn ystod y cyfarfod ar gyflwr yr angorfeydd a'r gwaith a gwblhawyd ar bob un.

Cyfanswm costau'r cadwynau angori a'r gefynnau a ddefnyddir ar gyfer cynnal a chadw'r angorfeydd a'r cymhorthion mordwyo o fewn harbwr Pwllheli yn ystod gwanwyn 2008 yw £2,853. Cyfanswm y gost ar gyfer Darparu Gwasanaeth Angori yw £1,870, sy'n rhoi cyfanswm costau o gynnal a chadw'r angorfeydd yn yr harbwr allanol yn £4,723.

**3.6** Cafodd y dolennau angori ar y stanciau angori yn yr Harbwr Allanol eu hadnewyddu. Roedd cyfanswm y gost o gynhyrchu'r dolennau angori yn £430, gyda chostau'r contractwr am gwblhau'r gwaith yn £2,740. Cyfanswm y gost o adnewyddu'r dolennau angori oedd £3,170. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau na fydd y dolennau angori angen eu hadnewyddu hyd oddeutu 2028.

**3.7** Symudwyd y pontynau oedd yn gwasanaethu anghenion y pysgotwyr lleol o'r Harbwr Allanol yn ystod y gaeaf a chawsant eu cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau nad oeddynt yn peri risg a'u bod mewn cyflwr derbyniol. Yn anffodus, roedd y pontynau mewn cyflwr difrifol ac roedd angen gwaith mawr arnynt er mwyn iddynt fod i'r safon gofynnol. Daethpwyd o hyd i fermin yn bridio yn yr unedau sy'n arnofio a bod difrod sylweddol wedi ei wneud iddynt.

Bydd yn rhaid i'r pysgotwyr sy'n defnyddio'r pontynau sicrhau na fydd offer pysgota trwm yn cael ei gadw ar y pontŵn ac y bydd yr abwyd i gyd yn cael ei waredu mewn dull na fydd yn denu'r fermin i fridio ar y pontynau. Os bydd y pysgotwyr yn parhau i waredu abwyd a storio offer ar y pontŵn, yna bydd yr Uned yn ystyried argymell y dylid adolygu'r disgownt ar y ffioedd a'r taliadau a gynigir i bysgotwyr dilys.

## 4 - ***Staff***

4.1 Bu nifer o swyddogion o'r Uned Forwrol ar secondiad mewn mannau eraill o'r gwasanaeth trwy fisoedd y gaeaf. Er bod y swyddog sydd ar hyn o bryd ar secondiad yn harbwr Porthmadog wedi hysbysu ei fwriad o ddychwelyd i'w swydd yn Abersoch/ Pwllheli, rhagwelir y bydd harbwrfeistr presennol Pwllheli, sydd ar secondiad o Borthmadog, yn aros ar secondiad ym Mhwllheli hyd ddiwedd Medi.

## 5 - ***Prosiect yr Academi Hwylio***

Fel y bydd Aelodau'n ymwybodol, cymeradwyodd Bwrdd y Cyngor i swyddogion ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu Academi Hwylio ym Mhwllheli er mwyn cyfarfod â'r galw sylweddol a phoblogrwydd Pwllheli fel lleoliad cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer cystadlaethau hwylio.

Erbyn hyn, cwblhawyd astudiaeth er mwyn canfod a oes posibilrwydd o ddatblygu'r basn i'r gogledd o gyfleuster y marina presennol. Cadarnhaodd adroddiad yr ymgynghorydd y byddai'n bosib carthu basn a lleoli pontynau yn ardal yr ymchwil fyddai'n rhoi lle ar gyfer cychod ymwelwyr a chychod fyddai'n cymryd rhan mewn cystadlaethau.

Yn 2007, penodwyd cwmni Marina Projects gan Gyngor Gwynedd er mwyn ymchwilio ac argymell yr opsiwn mwyaf ffafriol fyddai'n cyd-fynd â'r brîff er mwyn datblygu Academi Hwylio ym Mhwllheli. Sefydlwyd Grŵp Technegol er mwyn rhoi mewnbwn i'r prosiect.

Rhwng 6-8 Mawrth, cynhaliwyd arddangosfa gyhoeddus ym Mhwllheli, lle cafodd y cyhoedd weld a gwneud sylwadau ar yr opsiwn a argymhellwyd gan yr ymgynghorwyr. Atodir yr opsiwn a ffafriwyd gan yr ymgynghorwyr.

**6 -** ***Gŵyl Wakestock a Gŵyl Fwyd Pwllheli***

**6.1** Bwriedir cynnal gŵyl flynyddol Wakestock ym masn gogleddol Pwllheli ar y 5 a 6 Gorffennaf, 2008. Yn y blynyddoedd a fu, cynhaliwyd yr ŵyl ar y Gwener a'r Sadwrn, ond holodd y trefnwyr a fyddai'n bosib iddynt gael yr hawl i gynnal yr ŵyl yn 2008 ar y Sadwrn a'r Sul.

Roedd y dyddiad a hysbysebwyd gan drefnwyr Wakestock yn cyd-daro â dyddiad Gŵyl Fwyd Llŷn (a gymeradwywyd ynghynt) ac roedd trefnu'r ddau ddigwyddiad ar yr un dyddiadau yn creu pryder i drefnwyr Gŵyl Fwyd Llŷn.

Gan fod y ddwy ŵyl wedi eu trefnu ar yr un dyddiadau, mae trefnwyr Gŵyl Fwyd Llŷn erbyn hyn wedi aildrefnu'r digwyddiad ar 7 a 8 Mehefin, 2008.

Pwysleisiodd trefnwyr gŵyl Wakestock ei bod yn hanfodol bod caniatâd i gynnal y digwyddiad ym masn gogleddol harbwr Pwllheli yn cael ei roi cyn y gellid cyhoeddi dyddiadau'r digwyddiad.

**7 –** ***Rheolaeth Hafan Pwllheli***

Fel y bydd Aelodau'n ymwybodol, cymeradwyodd Bwrdd y Cyngor i reolaeth Hafan Pwllheli fod yn fewnol o1Ebrill, 2008. Bydd y contract cyfredol gyda Yacht Haven Management Ltd yn cael ei ddileu a chafodd y cwmni ei hysbysu o fwriad y Cyngor.

Rhaid pwysleisio, er na fydd y Cyngor dan gontract i Yacht Haven Management Ltd o 1 Ebrill, 2008 ymlaen, bydd rheolaeth dydd i ddydd y marina yn aros yn nwylo'r staff presennol sydd â phrofiad eithriadol ac sy'n cyflawni eu dyletswyddau yn broffesiynol iawn.

Ni ddisgwylir y bydd cleientiaid yn gweld unrhyw wahaniaeth yn lefel uchel y gwasanaeth a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn Hafan Pwllheli gan y cedwir y strwythur staffio presennol a phob un aelod o staff a gyflogir ar hyn o bryd gan Gyngor Gwynedd yn Hafan Pwllheli.

Cyfarfu Cyngor Gwynedd â phob un aelod o staff a gyflogir ar hyn o bryd yn Hafan Pwllheli ac â chynrychiolwyr Yacht Haven Management Ltd, er mwyn sicrhau na fydd y trawsnewidiad yn peri unrhyw broblemau gweinyddol. Mae Cyngor Gwynedd wedi mynegi eu gwerthfawrogiad llwyr i Yacht Haven Management Ltd am y gwasanaeth ardderchog a ddarparwyd ganddynt ers yr agorwyd Hafan Pwllheli.

**8 -** ***Materion Cyffredinol***

**8.2** Yn ystod y gaeaf, rhoddwyd gwybod am nifer o ddigwyddiadau lle gwelwyd cerbydau modur, sef beiciau cwad yn y twyni tywod a thraeth Glan Don ac Abererch. Mae'r twyni gyferbyn ag Ardal Cadwraeth Arbennig ac mae'n drosedd creu difrod i safle o'r fath.

Mae staff o'r Uned Forwrol wedi bod yn goruchwylio'r traeth ar nifer o benwythnosau er mwyn rheoli'r sefyllfa'n well. Bydd yr Uned Forwrol yn cysylltu â Chyngor Cefn Gwlad Cymru er mwyn gofyn am fwy o gymorth i reoli'r twyni yn ystod y penwythnosau, yn enwedig yn ystod y gaeaf.

**8.3** Yn ystod Ionawr a Chwefror, cafwyd hyd i nifer o grwbanod y môr wedi eu golchi i'r lan ar draethau Gwynedd. Ymchwiliodd y Staff Morwrol i'r adroddiadau a darganfod

mai môr grwbanod pendew oedd nifer ohonynt, gydag un môr grwban pendew Kemp wedi ei olchi ar draeth Porth Ceiriad.

Casglwyd y rhan fwyaf o'r môr grwbanod gan y Swyddog sy'n gyfrifol am greaduriaid a olchir i fyny ar y traethau. Aethpwyd â'r creaduriaid i Sŵ Llundain ar gyfer post mortem a disgwylir adroddiad am achos eu marwolaeth yn y dyfodol agos. Yn Nhywyn, golchwyd un môr grwban lledraidd ar y traeth a gofynnwyd i'r cyhoedd fod yn wyliadwrus pan fyddant yn cerdded ar draethau Gwynedd ac adrodd am unrhyw greadur sydd wedi ei olchi i fyny ar y traeth wrth unrhyw un o'r Awdurdodau.

**8.4** Bu Clwb Hwylio Pwllheli yn llwyddiannus iawn yn sicrhau bod nifer sylweddol o ddigwyddiadau mawreddog yn cael eu denu i Bwllheli yn ystod 2007. Atodir rhestr gyflawn o'r digwyddiadau, gan gynnwys y nifer o gyfranogwyr ac amcangyfrif o'r nifer o griw atodol sydd wedi cadarnhau eu bwriad i gystadlu ym Mhwllheli yn ystod 2008.

Canmolir a gwerthfawrogir y gwaith a gyflawnwyd gan y Clwb Hwylio, yn enwedig ei lwyddiant yn denu digwyddiadau mor fawreddog i Bwllheli. Gwelir yn yr Atodiadau bod Pencampwriaeth y Byd ar gyfer Cychod 'Mirror' wedi ei drefnu i gael ei gynnal ym Mhwllheli yn 2009.

Lle bo'n bosib, bydd staff yr Uned Forwrol yn parhau i roi cymorth i gyfarfod ag anghenion y cystadleuwyr a'r trefnwyr, ond rhaid pwysleisio bod y marina ar hyn o bryd yn gweithio hyd eithaf ei gapasiti, ac o bosib, bydd diffyg yn y nifer o angorfeydd pontŵn fydd ar gael yn yr harbwr.

Rydym yn ymhyfrydu ein bod wedi ein hysbysu bod Pwllheli wedi cael ei ddewis yn swyddogol fel Man Hyfforddi ar gyfer cystadleuwyr allai fod yn cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd a'r Para Olympaidd yn 2012. Gobeithir yn fawr y bydd nifer o wledydd yn cymryd mantais o'r cyfleusterau hyfforddi ardderchog a ddarperir ym Mhwllheli.

**8.2** ***<u>Arwyddion Gwahardd Parcio</u>***

Yng nghyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol yr Harbwr, a gynhaliwyd yn Hydref 2007, mynegodd cynrychiolydd yr RNLI ei bryder bod cerbydau'n cael eu parcio yn y fath fodd fel eu bod yn creu rhwystr i'r Bad Achub.

Er mwyn sicrhau y bydd y cyhoedd yn parcio eu cerbydau mewn ffordd ystyriol, ac mewn mannau a ddynodwyd ar gyfer parcio, bydd yr Uned Forwrol yn gosod arwyddion yn agos at Orsaf y Bad Achub yn nodi y gellir clampio cerbydau sy'n parcio yn y fan honno. Y gobaith yw y bydd yr arwyddion yn cael eu gosod yn eu lle cyn y Pasg 2008.